**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LJC/20240219

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

19 Chwefror 2024

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2024. Nodwyd ei gynnwys.

Gan gyfeirio'n ôl at adroddiad y Pwyllgor, dyddiedig 15 Ionawr 2024, ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau Diwygio"):

- O ran pwynt craffu technegol 1 a chan gofio statws cyfartal y ddwy iaith, fe wnaethom archwilio a allai Cofrestrydd yr OSau ystyried bod cywiro testun Cymraeg rheoliad 4(a) o'r Rheoliadau Diwygio yn fater bach ac amlwg, yng nghyd-destun diwygio pennawd cyffredinol y rheoliad.

  Yn y pen draw, mae Cofrestrydd yr OSau wedi penderfynu nad yw'n fater sy'n addas ar gyfer slip cywiro, ac felly ymdrinnir â hyn yn hytrach drwy ddarpariaeth ddiwygio pan ddaw'r cyfle.

- O ran pwynt craffu ar rinweddau 9, roedd y cais am slip cywiro yn ymwneud â'r rheoliadau gwreiddiol: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 (2023/953).

  Y mater cyntaf oedd cywiro'r Nodyn Esboniadol er mwyn ei gwneud yn glir bod y cyfeiriad at "y Ddeddf" yn gyfeiriad at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Roeddem o'r farn bod hepgor "(Cymru)" yn wall bach ac amlwg (gan nad oes cyfeiriad mewn man arall at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn yr offeryn ac mae'n amlwg bod y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ymhellach, diffinnir "y Ddeddf" fel "Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006" yn y ddarpariaeth ddehongli (rheoliad 2) o'r rheoliadau).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr ail fater yn ymwneud â mewnosod troednodyn yn rheoliad 3(1) i egluro cymhwysedd darpariaeth arbed yn Rheoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019. Nid yw'n bosibl mewnosod troednodiadau drwy offeryn diwygio, ond er hynny roeddem o'r farn mai diwygiad bach ac amlwg i'r rheoliadau gwreiddiol fyddai hyn, ac felly ei fod yn addas ar gyfer slip cywiro.

Rydym wedi cael cadarnhad gan Gofrestrydd yr OSau y gellir ymdrin â'r ddwy agwedd yn y ffordd hon ac y bydd slip cywiro nawr yn cael ei geisio.

Mewn achosion pan fo'r llywodraeth yn cytuno y dylid diwygio, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi mewn gohebiaeth flaenorol i'r Pwyllgor yr arfer a ddilynir mewn perthynas â defnyddio slipiau cywiro. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi hysbysu'r Pwyllgor am ei farn mai diben yr arfer hon yw helpu i sicrhau nad yw gwallau technegol bach iawn yn broblem i ddarllenwyr deddfwriaeth. Yn y pen draw, mater i Gofrestrydd yr OSau yw pa mor addas yw diwygio mater drwy slip cywiro, a phan nad yw hynny'n opsiwn, ar ôl gwirio gyda'r Cofrestrydd, caiff llwybrau diwygio eraill eu hystyried fel yn achos pwynt craffu technegol 1.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services